**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Craffu Cymunedau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 17 Ionawr 2013

**Swyddog / Aelod Arwain:** y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol

**Awdur yr Adroddiad:** y Rheolwr Adfywio Strategol

**Teitl:** Cynlluniau Tref

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am ddatblygu trefi sy'n economaidd ddichonadwy a chynaliadwy a fydd yn hybu'r economi leol ac yn gwella canlyniadau i breswylwyr a busnesau lleol ac yn denu ymwelwyr i'r ardal.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Y rheswm dros lunio'r adroddiad hwn yw adolygu effeithiolrwydd Cynlluniau Tref o ran dechrau cyflawni eu hamcanion.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn darparu'r arsylwadau ynglŷn â'r canlynol:

3.1 trefniadau a roddwyd ar waith i fynd ymlaen â chyflenwi'r Cynlluniau Tref;

3.2 cynigion i ddatblygu Cynlluniau Ardal i nodi blaenoriaethau mewn cymunedau gwledig;

3.3 cynigion i fonitro perfformiad; a

3.4 pennu pa Bwyllgor Craffu a ddylai gael adroddiadau yn y dyfodol am Gynlluniau Tref.

## 4. Manylion yr adroddiad

Cadarnhaodd y Cabinet Gynlluniau Tref ar gyfer saith anheddiad mwyaf y sir, heblaw'r Rhyl, rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Mawrth 2012 yn ystod cyfnod y Cyngor Sir blaenorol mewn swydd. Ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2012, gwnaethpwyd cyflwyniadau i'r pum Grŵp Ardal Aelod er mwyn i'r aelodau etholedig newydd ymgyfarwyddo â chynnwys y Cynlluniau Tref a gymeradwywyd yn flaenorol ac i ddechrau adolygiad o'u cynnwys i sicrhau eu bod yn ddilys o hyd ac er mwyn ymgorffori unrhyw flaenoriaethau ychwanegol.

Gwahoddwyd y chwe Grŵp Ardal Aelod i gyd, gan gynnwys y Rhyl, i enwebu Aelod Arwain, a ddynodwyd wedyn yn Hyrwyddwr, i weithio gyda'r Grŵp i fynd ymlaen â chyflenwi blaenoriaethau'r Cynllun, i hwyluso cyfathrebu effeithiol yn y Grŵp a

chyfathrebu effeithiol â rhanddeiliaid perthnasol eraill mewn trefi a chymunedau lleol, ac i sicrhau bod yr holl flaenoriaethau cymunedol perthnasol yn cael eu crisialu yn y Cynlluniau. Y trefniant cychwynnol oedd cael un hyrwyddwr i bob Grŵp Ardal Aelod ond newidiwyd hyn yn ddiweddarach i gael un i bob Cynllun Tref. Mae'r hyrwyddwyr yn cyfarfod â'i gilydd mewn Grŵp Cydlynu Cynlluniau. Dynodwyd swyddog o'r adran Adfywio Strategol yn "Bwynt Cyswllt Sengl" i bob Grŵp Ardal Aelod weithio gyda'r Hyrwyddwyr perthnasol.

Mae'r Grŵp Cydlynu wedi cytuno ar broses i ddiweddaru'r Cynlluniau a gwneud newidiadau iddynt a bu'r Hyrwyddwyr yn gweithio gyda'r Pwynt Cyswllt Sengl i ddiweddaru'r Cynlluniau Tref. Mae'r fersiynau diwygiedig yn cael eu cyflwyno i'r Grwpiau Ardal Aelod yn eu cylch cyfredol o gyfarfodydd.

Mae'r Grŵp Cydlynu hefyd wedi ystyried dyrannu cyllid o'r gyllideb i gyflenwi'r flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer gwella'r economi leol cyn ei gadarnhau gan y Cabinet yn gynharach yr wythnos hon. Bydd hyn yn golygu y bydd modd mynd ymlaen â'r camau blaenoriaeth hynny a nodwyd i'w gweithredu'n gynnar, na ellid eu cyflenwi cyn pen ffrâm amser resymol ond gyda chymorth ariannol o'r gyllideb hon.

Nid yw'r Cynlluniau a gymeradwywyd hyd yma wedi mynd i'r afael eto ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau llai o faint a mwy gwledig. Gofynnwyd i'r Aelodau sy'n cynrychioli'r wardiau perthnasol nodi materion cychwynnol gan gynnwys y cwmpas daearyddol priodol i Gynlluniau Ardal na fydd o reidrwydd yn cyfateb i ffiniau'r Grwpiau Ardal Aelod, a blaenoriaethau i'w trafod drwy'r Grwpiau Ardal Aelod. Bwriedir y bydd y Cynlluniau Tref yn cael eu hehangu wedyn yn Gynlluniau Ardal ehangach sy'n canolbwyntio ar y Trefi a'u cymunedau cysylltiedig llai o faint a mwy gwledig. Rhagwelir y bydd gan y Cynlluniau Ardal 3 adran fras: un yn nodi'r blaenoriaethau a'r weledigaeth i bob Tref, ail un yn nodi'r ffordd y mae'r cymunedau llai o faint a mwy gwledig o'i chwmpas yn gysylltiedig â'r Dref, a thrydedd un yn nodi unrhyw anghenion neu flaenoriaethau penodol ar gyfer y cymunedau llai o faint a mwy gwledig. Mabwysiadir proses ymgynghori sy'n debyg i'r broses ar gyfer y Cynlluniau Tref gwreiddiol. Bydd y Grwpiau Ardal Aelod yn adolygu'r Cynlluniau Ardal ac yna'n eu hargymell i'w mabwysiadu'n ffurfiol. Y Grwpiau Ardal Aelod a fydd yn sicrhau bod y Cynlluniau Ardal, wrth iddynt gael eu datblygu, yn adlewyrchu'n briodol anghenion a blaenoriaethau'r holl gymunedau sy'n cael sylw yn y Cynllun, gan gynnwys cymunedau llai o faint a mwy gwledig. Hefyd, bydd yr Arweinydd Cabinet ar gyfer Datblygu Gwledig yn Hyrwyddwr Gwledig yn y broses, gan sicrhau bod y Cynlluniau Ardal yn ymgorffori blaenoriaethau gwledig yn ogystal â'r rheini a nodwyd ar gyfer y Trefi mwy o faint a sicrhau bod ymgynghori llawn a phriodol wedi digwydd.

Datblygwyd proses i fonitro perfformiad y Cynlluniau Tref ac Ardal ar y cyd â'r gwasanaeth Perfformiad a Chynllunio Busnes i ategu'r trefniadau adrodd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Bydd adroddiad perfformiad yn cael ei gyflwyno i'r Grwpiau Ardal Aelod bob chwarter a fydd yn amlygu'r hyder cyflenwi sydd ynghlwm wrth bob un o'r camau blaenoriaeth byw yn y Cynlluniau Tref ac Ardal perthnasol gan ddefnyddio'r statws Coch-Oren-Melyn-Gwyrdd a fabwysiadwyd yn y fethodoleg rheoli prosiectau corfforaethol. Mae adroddiad perfformiad chwarterol enghreifftiol ar gyfer Rhuddlan ynghlwm yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn, yn enghraifft o'r fformat a ddefnyddir ac a gymeradwywyd gan y Grŵp Cydlynu Cynlluniau Tref ac Ardal. Bydd yr wybodaeth yn yr adroddiadau Tref ac Ardal unigol hyn yn cael ei chydgrynhoi a'i

chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad Chwarterol a gyflwynir i'r Cabinet gan ddechrau yn chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2013/14. Y bwriad hefyd yw darparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor Sir. Mae gofyn ystyried hefyd pa Bwyllgor Craffu a fyddai'r un mwyaf priodol i gael adroddiadau yn y dyfodol am y Cynlluniau hyn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi bod trefi a chymunedau sy'n economaidd weithgar a ffyniannus yn gydrannau hanfodol o economi leol gref. Bydd gweithredu Cynlluniau Tref yn cefnogi'r broses o weithredu'r flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer gwella'r economi leol a bydd hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i fodloni ei uchelgais o fod yn agosach at y gymuned.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Cynigir bod blaenoriaethau Cynlluniau Tref ac Ardal, ar gyfer 2012/13 a 2013/14, yn cael eu cyllido o gyllideb sy'n cwmpasu nifer o wahanol ddyraniadau presennol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| £175,000 y flwyddyn o gyllideb refeniw ar gyfer blaenoriaeth gorfforaethol 'gwella'r economi leol' ar gyfer 2012/13 a 2013/14 | £350,000 |
| £100,000 y flwyddyn o gyllideb refeniw ar gyfer prosiectau cymunedol yn 2012/13 a 2013/14 | £200,000 |
| Dyraniad cyfalaf ar gyfer prosiectau cyfalaf cymunedol ac arian cyfatebol ar gyfer 2012/13 | £480,000 |
| Dwyn ymlaen tanwariant o 2011/12 | £245,000 |
| | **£1,275,000** |

Er bod cynnig wedi'i wneud am £480,000 o ddyraniad cyfalaf pellach, nid oes penderfyniadau am y cynllun cyfalaf ar gyfer 2013/14 wedi'u gwneud eto felly ni thybiwyd bod y dyraniad hwn ar gael.

Bwriedir y bydd prosiectau'r Rhyl yn Symud Ymlaen yn cael eu cyllido'n bennaf naill o'r £175,000 o ddyraniad corfforaethol ar gyfer adfywio a wnaethpwyd yn 2011/12 neu, yn achos prosiectau mwy o faint, drwy gynigion penodol i'w hystyried gan y Grŵp Buddsoddi Strategol cyn penderfyniad gan y Cabinet. Fodd bynnag, gallai fod rhywfaint o alw ar y dyraniad cyllid at Gynlluniau Tref ac Ardal ar gyfer prosiectau'r Rhyl yn Symud Ymlaen.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Mae'r Grŵp Cydlynu Cynlluniau Tref wedi trafod y cynigion a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Roedd y Cynlluniau Tref blaenorol yn destun ymgynghori helaeth a disgwylir yr un fath wrth i'r Cynlluniau Ardal ehangach gael eu datblygu.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ddim yn berthnasol

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cynlluniau Tref:

- methu â chyflenwi blaenoriaethau a nodwyd i'w cwblhau ym mlynyddoedd cynnar y Cynlluniau Tref, a
- methu â mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau llai o faint a mwy gwledig

Lleihawyd y risg o beidio â chymryd y camau a nodwyd i'w cwblhau ym mlynyddoedd cynnar y Cynlluniau Tref drwy greu rolau Hyrwyddwyr Cynllun Tref ac Ardal i fynd ymlaen â chyflenwi'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynlluniau Tref ac Ardal perthnasol a thrwy ddyrannu cyllidebau er mwyn cyllido camau blaenoriaeth na ellid eu cyflenwi fel arall drwy gyllidebau gwasanaeth presennol.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor wneud unrhyw beth yr ystyria ei fod yn debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.

Mae Erthygl 6.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn grymuso'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i graffu ar y broses o ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ardal ac ar ddatblygiadau felly gan gynnwys y Cynlluniau Tref.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Adfywio Strategol
Ffôn: 01824 706860